**Lesley Griffiths AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-759
Ein cyf/Our ref LG/00818/17

Mike Hedges AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

8 Mai 2017

Annwyl Mike.

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 24 Ebrill ynghylch deiseb am ailagor Ffordd Coedwig Cwmcarn ym Mhasg 2018. Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sy'n gyfrifol am reoli coetiroedd ystad Llywodraeth Cymru o ddydd i ddydd, gan gynnwys Ffordd Coedwig Cwmcarn. Cafodd y ffordd ei chau er mwyn sicrhau bod y gwaith cynaeafu yn cadw at yr amserlen a bod y risgiau i'r cyhoedd yn cael eu rheoli'n briodol. Mae hyn yn flaenoriaeth i Gyfoeth Naturiol Cymru o hyd.

Yn ogystal â'r gwaith i gwympo coed llarwydd sy'n dioddef o'r *Phytophthora ramorum*, mae arolygon gan beirianwyr wedi dangos bod angen buddsoddiad sylweddol i gadw'r ffordd ar agor. Mae hefyd costau ychwanegol sylweddol sy'n gysylltiedig ag ailstrwythuro'r goedwig o ran cwympo coed llarwydd, plannu mwy o amrywiaeth o rywogaethau o goed mwy cydnerth yn eu lle a lleihau'r effaith ar hamdden a thwristiaeth. Rhaid ystyried holl gostau barhaus CNC a'i gostau yn y dyfodol ar gyfer rheoli'r ffordd drwy'r goedwig.

Mae CNC wedi cadw mewn cysylltiad yn rheolaidd â Ffrindiau Ffordd Cwmcarn ac wedi rhoi diweddariadau cyfnodol iddynt yn ystod eu cyfarfodydd cyhoeddus dros y 18 mis diwethaf. Er mai ailagor y ffordd yw prif ffocws y grŵp, maent wedi'u calonogi hefyd gan yr ymdrechion aruthrol presennol i reoli'r gwaith cwympo mawr gan ddiogelu'r amgylchedd a'i gadw ar agor i'r cyhoedd. Yn ogystal, mae CNC bellach yn canolbwyntio ar ailstocio'r coetir â rhywogaethau brodorol ac ar annog adferiad y coetir hynafol drwy adfywio naturiol. Mae dros 50 o hectarau eisoes wedi'u hailstocio a bydd 170,000 o goed ychwanegol yn cael eu plannu yn ystod y gaeaf hwn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae CNC wedi fy hysbysu nad ydynt wedi penderfynu eto ynghylch dyfodol y ffordd. Serch hynny, maent wedi bod yn glir nad ydynt yn gallu ymrwymo i ailagor y ffordd nes i'r cyllid ar gyfer gwneud y gwaith cysylltiedig gael ei neilltuo.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a CNC yn cydweithio i ymchwilio sut y gall gweithio'n gydlynol eu galluogi i elwa cymaint â phosibl ar y seilwaith hamdden presennol, yr asedau cyfalaf a'r cyfoeth naturiol sydd yng Nghwmcarn. Maent yn gobeithio y bydd datblygu model rheoli ar y cyd yn fodd i fanteisio ar y posibiliadau enfawr o adfywio'r gymuned yng Nghwmcarn gan gadw ei werth naturiol cynhenid a'i chwsmeriaid presennol ar yr un pryd. Bydd astudiaeth i ymarferoldeb masnachol ac opsiynau rheoli Cwmcarn yn dechrau eleni. Bydd opsiynau ar gyfer dyfodol y ffordd dwristiaid yn cael eu cynnwys yn yr astudiaeth hon. Mae CNC yn gobeithio bod mewn sefyllfa i adolygu canfyddiadau'r astudiaeth yn gynnar yn 2018.

Rwy'n ymwybodol o werth yr ymdrech i gymunedau ac ymwelwyr ond oherwydd y goblygiadau parhaus o ran y costau i'w hailagor mae'n rhaid i CNC ystyried cymaint o opsiynau ag sy'n bosibl er mwyn asesu effaith hyn ar ei gyllideb. Rwy'n disgwyl i CNC ystyried materion cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth iddynt fwrw ymlaen.

Dylid annog llofnodion y ddeiseb i barhau i gydweithio â CNC er mwyn ystyried yr opsiynau posibl dydd ar gael er mwn datblygu cynllun i sicrhau dyfodol tymor hir y ffordd dwristiaid.

Yn gywir

Lesley

**Lesley Griffiths AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs